

## Taflen Ffeithiau ar gyfer Cynghorwyr Archaeolegol

Er mwyn helpu Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 i gyflawni ei nod o gadw enghreifftiau pwysig o dreftadaeth llongddrylliadau'r genedl, mae sawl mesur diogelu wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau bod gwaith ar safleoedd llongddrylliadau dynodedig yn bodloni safonau archaeolegol derbyniol. Dim ond o dan drwydded a roir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y gellir gwneud gwaith ar safle dynodedig.

Dim ond lle mae archaeolegydd wedi'i achredu yn cyfarwyddo'r gwaith y rhoddir trwyddedau am archwiliadau archaeolegol ymwithiol megis cloddio. Weithiau rhoir trwyddedau ar gyfer archwiliadau nad ydynt yn ddinistriol, megis gwaith arolygu, i grwpiau sydd â phrofiad archaeolegol cyfyngedig, a dyma'r amgylchiadau lle bydd angen Cynghorydd Archaeolegol allanol i gynnig yr arbenigedd angenrheidiol. Er mwyn i hyn weithio'n effeithiol, rhaid i'r Cynghorydd chwarae rhan bositif, ac nid dim ond ymateb i geisiadau am gyngor gan y tîm o bryd i'w gilydd. Mae angen i'r Cynghorydd gadw mewn cysylltiad rheolaidd â deiliaid y drwydded, a chynnal perthynas weithio dda.

Mae'n bwysig bod y Cynghorydd yn cadw mewn cysylltiad â'r hyn sy'n digwydd ar y safle, yn ddelfrydol drwy ymweld yn rheolaidd â'r safle pryd bynnag y bydd gwaith yn mynd ymlaen yno. Os nad oes modd gwneud hyn, yna rhaid cadw mewn cysylltiad â'r tîm yn rheolaidd, pe na bai ond ar y ffôn, er mwyn i unrhyw anawsterau gael eu trafod ac i gynnydd y gwaith gael ei fonitro.

Mae'n bosibl na fydd y Trwyddedeion bob amser yn ymwybodol o'u diffyg gwybodaeth archaeolegol, yn arbennig os oes ganddynt brofiad eang o 'weithio' heb gyfarwyddyd iawn ar safleoedd llongddrylliadau hanesyddol sydd heb eu diogelu gan y gyfraith. Bydd rhaid yn aml i'r Cynghorydd godi lefel ymwybyddiaeth archaeolegol y tîm a gall fod angen eu hannog i ymuno â chynllun hyfforddi'r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol (manyion ar gael oddi wrth Swyddog Hyfforddi y Nautical Archaeology Society, Fort Cumberland, Fort Cumberland Road, Eastney, Portsmouth, PO4 9LD.

Nid oes angen i waith y Cynghorydd gymryd llawer o amser yn arbennig, oni bai ei fod ef neu hi yn penderfynu chwarae rhan fwy gweithgar yn y gwaith ar y safle ac oddi arno. Er hynny, fe fydd rhaid yn aml i archaeolegwyr sy'n ymgymryd â rôl Cynghorydd dreulio amser ar y canlynol:

- 1 Helpu'r tîm i lunio Cynllun Ymchwil cyn gwneud cais am drwydded a Strategaeth Gwaith Maes cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle.
- 2 Helpu'r tîm i ysgrifennu'r adroddiad ar weithgareddau'r tymor.
- 3 Sicrhau bod cofnodion digonol yn cael eu cadw, a bod y cofnod yn cael ei adneuo mewn man adneuo cydnabyddedig, gyda chopi i Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 3BU. Ffôn: 01970 621200. E-bost: nmr.wales@rcahmw.gov.uk
- 4 Cynghori'r tîm ar ddulliau ar gyfer lledaenu gwybodaeth am y safle drwy gyhoeddiadau, darlithoedd etc.

### Deunydd Darllen

Dean, M, 1988, 'Guidelines on Acceptable Standards in Underwater Archaeology'. Cymdeithas Datblygu Astudiaethau Morwrol yr Alban, St Andrews. ISBN 1-871170-00-1.

Cymdeithas Archaeoleg Forwrol, 1992, 'Archaeology Underwater: The NAS Guide to Principles and Practice', Archetype Press, Llundain. ISBN 1-873132-25-5.

### Cyfeiriad Cyswllt

Cadw, Y Gangen Ddynodiadau, Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed, Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ.  
Ffôn: 03000 295017 E-bost: Cadw@llyw.cymru